Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 5 Medi 2023

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 5 Medi 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 5 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 5 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Yn bresennol**

**Cyflwyniad**

**Y cyfarfod nesaf**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

Frances Duffy (Cadeirydd)
Saz Willey, Is-gadeirydd
Bev Smith, Aelod
Dianne Bevan, Aelod
Kathryn Watkins, Aelod
Sara Rees, Ysgrifenyddiaeth
Shan Whitby, Ysgrifenyddiaeth

## Rhanddeiliaid allanol sy'n mynychu'r cyfarfod

Shereen Williams, Prif Swyddog Gweithredol, Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
Robert Ashton Winter, Rheolwr Pontio, Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ddydd Mawrth 5 Medi.

Dyma nod cyfarfod mis Medi:

- adolygu a chytuno ar nodiadau cyfarfod mis Awst (nodiadau llawn a chryno), gan nodi camau gweithredu a diweddariadau'r Ysgrifenyddiaeth
- diweddaru cynllun gwaith a chyllideb 2023 i 2024
- trafod adolygiad o'r materion yn ymwneud â chofnod penderfyniadau'r Panel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hyd yn hyn

- ystyried y Cynllun Tystiolaeth ac Ymchwil
- trafod cwestiynau'r ymgynghoriad
- trafod yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer drafftio, a materion yn ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu
- trafod ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf am bontio a deddfwriaeth
- trafod unrhyw fusnes arall

Isod ceir crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Panel:

## Camau Gweithredu a Diweddariadau'r Ysgrifenyddiaeth

Cytunodd y Panel ar gofnodion cyfarfod mis Awst, a chymeradwyodd ei Strategaeth Gyfathrebu.

Nododd y Panel y daflen gyllideb fel y'i trafodwyd.

Trafododd y Panel ymholiadau a oedd wedi dod i law gan ddau Gyngor Sir drwy'r Ysgrifenyddiaeth, a chytunwyd ar yr ymatebion. Roedd yr ymholiadau hyn yn ceisio cyngor ac eglurhad gan y Panel o ran adennill arian mewn perthynas â lwfans i brif gynghorwyr ar gyfer deunyddiau traul a thaliadau cydnabyddiaeth i aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Trafododd y Panel yr adroddiad tystiolaeth ac ymchwil fel sail i lywio penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2024 i 2025; cwestiynau ymgynghori; yr amserlen ar gyfer y ysgrifennu'r adroddiad blynyddol drafft; a'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Hefyd cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch pontio a deddfwriaeth. Bu'r Panel hefyd yn ystyried y fframwaith taliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, a hefyd y gofynion adrodd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adolygiad o'r wefan

Nododd y Panel yr adolygiad o'r wefan a oedd wedi ei gynnal gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ("Comisiwn"). Roedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â'r anallu i wneud newidiadau strwythurol i'r wefan, gan ei bod yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, gellir gwneud newidiadau i gynnwys y wefan i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i wybodaeth.

## Papur ymchwil a data

Trafododd y Panel bapur ymchwil IRP (23)396 a oedd yn cynnwys tystiolaeth a data i gefnogi'r Panel ac i alluogi'r aelodau i ystyried materion a gwneud Penderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024 i 25. Trafododd y Panel feysydd megis cyfraddau chwyddiant, fforddiadwyedd a chymaryddion Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr yn yr Alban. Gofynnodd y Panel fod cynrychiolwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod ym mis Hydref er mwyn adolygu methodoleg cyn cytuno ar benderfyniadau.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Trafododd y Panel gwestiynau ymgynghori i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Drafft.

## Adroddiad Blynyddol Drafft

Ystyriodd y Panel yr amserlen ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad blynyddol drafft, gan ystyried a ddylid cynnwys y papur ymchwil yn y fethodoleg. Cadarnhaodd y Panel y byddai'n adolygu'r adroddiad blynyddol drafft ar ôl iddo gael ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddychwelyd o'r gwasanaeth gyfieithu a chyn y cyfarfod ym mis Hydref.

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Adolygodd y Panel y cynllun cyfathrebu gan drafod amserlenni ar gyfer cyfnod ymgynghori.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Panel yn mynychu diwrnod ymgysylltu gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Cymuned Lleol (SLCC) ar 30 Medi.

Byddai cyfarfodydd gydag Arweinwyr Prif Gynghorau a rhanddeiliaid eraill yn cael eu trefnu yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, a'r wybodaeth ddiweddaraf am bontio a deddfwriaeth

Rhoddodd Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y ddeddfwriaeth ynghylch trosglwyddo'r Panel i'r corff newydd, gan ddisodli Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, yn 2025.

## Y cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod nesaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gynnal ar 10 Hydref pan fydd y Panel yn adolygu ac yn trafod yr ymatebion i'r cwestiynau ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Os oes gennych unrhyw faterion yr hoffech eu codi gyda'r Panel, mae croeso ichi gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth drwy e-bostio **IRPMailbox@llyw.cymru**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-5-medi-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.